

# Uchafbwyntiau Canolfan Ffilm Cymru

2013-2026



FILM HUB WALES
CANOLFAN FFILM CYMRU

BFI FAN THE NATIONAL LOTTERY

CHAPTER

# Edrych yn ôl...

Ddiwedd 2013, lansiodd Canolfan Ffilm Cymru raglen newydd sylweddol mewn partneriaeth â sinemâu, gwyliau ffilm a sgriniau cymunedol yng Nghymru, a gynlluniwyd i adeiladu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol ledled Cymru. Yn rhan o rwydwaith o 8 Canolfan 'FAN BFI', y prosiect oedd y cyntaf o'i fath, gyda gweithgaredd rhanbarthol ledled y DU.

Diolch i arian gan y Loteri Genedlaethol drwy'r BFI, mae'r prosiect bellach yn ei 14eg flwyddyn ariannol. Cymerwch olwg ar ddetholiad bychan o'r hyn rydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd ar hyd y ffordd.

**Cariad o,**

Tîm Canolfan Ffilm Cymru



Delwedd © Jon Pountney. 2014 BFI Gothic at Castell Coch Chapter, Cadw, Welsh Government, Darkened Rooms.

# Rhwydwaith

## 266 o arddangoswyr o Gymru



sinemâu llawn amser (annibynnol a masnachol) (13.53%)
Canolfan Celfyddydau Cymysg (17.67%)
o wyliau ffilm (15.41%)
Sinema Gymunedol / Cymdeithasau Ffilm (38.35%)
Pop yp (5.64%)
arall (rhwydweithiau, orielau, addysg, amgueddfeydd ac ati gyda rhaglenni ffilm rhan amser) (7.89%)
Archif (0.38%)
Teithiol (1.13%)



Delwedd © Welsh Film Preview Days, Galeri Caernarfon.

- **193** o aelodau
- **243** bwrsariaethau hyfforddi
- Fe wnaethon ni rwydweithio **2681** o weithiau (y gwnaethom eu cyfrif)!
- Manteisiodd yr aelodau ar hyfforddiant neu gyngor un i un o leiaf **2477** o weithiau
- Fe wnaethon ni greu **49** o adnoddau / canllawiau ar-lein ac **17** astudiaeth achos
- **48** o gyrsiau / digwyddiadau
- **16** darn o ymchwil cynulleidfa
- **20** Dyddiau rhagolwg ffilm Cymraeg
- **1** Ystafell Rhagolwgar-lein gyda 653 oarddangoswyr
- **490** Sinema i Bawb & llogi offer Canolfan Ffilm Cymru

## Ymchwil Cynulleidfaoedd

Fe wnaethomgomisiynu16darn o waith ymchwil a datblygu yn gysylltiedig ag arddangos, yn amrywio o berfformiad ffilmiauCymreig yn y swyddfa docynnau, i dirwedd addysg ffilm yng Nghymru, archwiliad o sinema wledig a sut i ddatgloi treftadaeth ffilm Cymru.

## Sgiliau

Gyda'r nod o gefnogiein haelodau arddangos i feithrin sgiliau a hyder, rydym wedi cynnig48o gyrsiau hyfforddi mewn lleoliadauac ar-lein, gan gynnwys fforwm chwarterol ar raglennu ffilmiau,offeryn rhaglennu amgylcheddolSgrin Fawr Bioamrywiola sesiynau cynhwysiant megisRhaglennu gan ac ar gyfer Cymunedau Lleiafrifol.Fe wnaethom hefyd ddatblygu 49adnodd ar-lein fel sut i raglennu ffilmiau byriona chynnal digwyddiadau sinema awyr agored.Rydym wedi cefnogi arddangoswyr i fynychu digwyddiadau a chyrsiau o'u dewis243gwaith, o wyliau rhyngwladol i gyfarfodydd strategol y tu hwnt i'whawdurdod lleol.

## Eiriolaeth

Rydym wedi cynrychioli anghenion arddangoswyr yng Nghymru i randdeiliaid y DU, gan gasglu adborth bob blwyddyn a pharatoi ymatebion i ymholiadau pwyllgorau diwylliannol, gan lobïo dros fuddsoddi mewn ffilmiau diwylliannol, megis yr holiadur a'r podlediad am Ddyfodol Ffilmiau Cymreig. Rydym hefyd wedi cydweithio gyda'r 7 Canolfan arall ledled y DU i ddatblygu tymhorau ffilm yn y DU, gan sicrhau bod nodweddion rhanbarthol yn cael eu hystyried.




Delwedd © Jon Pountney. World Alzheimer's Month 2017, Chapter, Cardiff.



# Cipolwg:

## Astudiaeth Achos Cyngor Pobl Fyddar Cymru (WCDP)

Yn 2021, cynigiwyd hyfforddiant am ddim i leoliadau o dair ardal ar ddeg o Gymru gyda grwpiau b/Byddar, gan amlinellu anghenion mynychwyr sinema Byddar a Byddar dall, ynghyd ag enghreifftiau o waith Charlotte Little a phrosiectau FDA a Sidecard Sinema Gynhwysol. Mae chwe lleoliad yn rhoi eu hyfforddiant ar waith, gan dderbyn grantiau o £3000 yr un i ddatblygu grwpiau gwirfoddol dan arweiniad pobl f/Fyddar neu ddiwrnodau agored, gan brofi dulliau marchnata a rhaglennu newydd ar gyfer eu cynulleidfaoedd b/Byddar lleol.



# Cipolwg:

## Dyddiau Rhagolwg Ffilmiau Cymreig

Ers 2013, mae Canolfan Ffilm Cymru wedi cynnal20Diwrnod Rhagolwg Ffilmiau Cymreigmewn lleoliadau ledled Cymru gyda dangosiadau o ffilmiau Cymreigneu Gymraegeu hiaithsydd ar ddod, er mwyn rhoi'r siawns gorau i ffilmiau Cymreig sicrhau dangosiadau mewn sinemâu.Mae'r dyddiau'n cynnwys pecynnau gwybodaeth a rhwydweithio, ynghyd â chyfleoedd am gyngor ariannu a marchnata.

Delwedd © Magic Lantern Cinema, Tywyn,
Wales Council for Deaf People (WCDP).

# Cynulleidfaoedd

Lansiwydein cronfa arddangos ffilm yn 2014 gyda'r nod o gefnogi sinemâu, gwyliau a sgriniau cymunedol Cymru i ddatblygu cynulleidfaoedd lleol ar gyfer ffilmiauPrydeinigannibynnol a rhyngwladol.






- **410 o brosiectau**
- **758,692 o gynulleidfaoedd**
- **Cyfanswm yr arian a drosolwyd gan Ganolfan Ffilm Cymru ar gyfer arddangos: £3,876,196**

Delwedd © Keith Morris. Doctor Who Monsters at Aberystwyth Arts Centre with BAFTA Cymru & BBC Cymru Wales.

# Cipolwg:

## Off y Grid (2016 - 2026)

Yn 2016 cysylltodd Canolfan Ffilm Cymru â lleoliadau ar draws Gogledd Orllewin Cymru i ddatblygu prosiect a gynlluniwyd i leihau unigedd i aelodau, gan gynyddu ymwybyddiaeth hefyd o ffilmiau Prydeinig annibynnol a rhyngwladol i gynulleidfaoedd.

Gyda chydlynu canolog, mae canolfannau'n elwa o'r gallu i drafod cyfraddau, hybu marchnata (lleoli grwpiau cynulleidfa allweddol ar gyfer ffilmiau, gan gynhyrchu hysbysebion Facebook hwb, cynhyrchu ffotograffiaeth, nodiadau rhaglen a rennir, teithio neu recordio sesiwn holi ac ateb). Gan gyrraedd eu seithfed flwyddyn yn 2023, mae Off Y Grid wedi sefydlu rhwydwaith lleol pwysig o 7 lleoliad. Yn ystod 25/26 fe drefnodd Cellb daith o'r enw 'Taith Em', i ddathlu gwaith yr arloeswr ffilmiau ac aelod OYG, Emyr Glyn Williams.

## Pontio Arts and Innovation Centre, Bangor

Gan weithio gyda rhaglennydd Pontio hyd yn oed cyn i ddrysau'r sinema agor, daeth y rhaglen yn gyflym yn un o'r rhai mwyaf anturus a chreadigol a gynigir yng Nghymru.

Yn 2021 fe wnaethant ddatblygu #DinesyddPontio a oedd â'r nod o roi sinema yn ôl yng nghanol bywyd cymdeithasol, gwleidyddol a chymunedol ym Mangor, gan adeiladu ar ddigwyddiadau newid bywydau 2021. Roedd y prosiect yn paru dangosiadau â themâu gwleidyddol penodol a oedd yn dathlu amrywiaeth, wedi'u cynllunio i uno cynulleidfaoedd o bob cefndir ac oedran ar ôl Covid-19 a chynnig cyfle iddynt lunio ac 'ysgwyd' rhaglen ffilm Pontio.




Delwedd © Off y Grid / Wicked Wales

# Treftadaeth

Trwy ein partneriaeth werthfawr gydag Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru (ASSLlGC), rydym wedi datblygu 6 pecyn archif sy'n cwmpasu bywyd yr Arfordir a'r Môr, Gwledig a Threfol yng Nghymru.

Daethom ag archif hefyd i Sinemaes yn yr Eisteddfod Genedlaethol, teithio'r clasur animeiddiedig; Jerry the Tyke, a Ffilmiau Byr Silent Horror Abertoir. Fe wnaethom hefyd eu cefnogi i ddatblygu ap newydd o'r enw Fframio'n Gorffennol ac yn 2025 fe wnaethom gydweithio â nhw i greu print newydd o Oed yr Addewid a deithiodd ledled Cymru.

## Cipolwg:

### To o Lechi

Mewn partneriaeth ag ASSLIGC  a Sinema Golau, gwnaethom guradu cyfres o ffilmiau a gweithgareddau sy'n dathlu statws treftadaeth y byd UNESCO tirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru ac archwilio cysylltiadau llai adnabyddus â Masnach Gaethwasiaeth yr Iwerydd. Cynhaliodd saith o arddangoswyr ddigwyddiadau ledled Cymru.

### Fframio'n Gorffennol

Mae Picturing Our Past / Fframio'n Gorffenol, yn e-lyfr ar hanes Cymru ar y sgrin a lansiwydochr yn ochr â chyfres o ddangosiadau ledled Cymru, gan baru nodweddion Cymreig a ryddhawyd yn ddiweddar gydaffilmiau byrarchif.








Delweddau © Jerry the Tyke tour at Ceredigion Museum Aberystwyth, Cut Me Loose: Wales and Slavery, Y Chwarelwr / The Quarryman, The National Library of Wales' Screen and Sound Archive.

# Cynhwysiant

Diolchi'n partneriaid medrus, rydym wedi archwilio rhaglenni sy'n ehangu cynrychiolaeth ar y sgrin a'rgweithlu arddangos. O ddangosiadau amgylchedd cefnogol i deuluoedd â phlant anabl, i raglenni cymunedol LHDT+ a gŵyl newydd Windrush. Cawsom y fraint hefyd o arwain prosiect Sinema Gynhwysol y DU ar ran BFI FAN rhwng 2017 a 2023.

## Cipolwg:

### Gŵyl Undod Hijinx 2022/23

GŵylUndodHijinxyw un o wyliau celfyddydau cynhwysol mwyaf Ewrop a'r unig un o'i fath yng Nghymru. Wedi'i greu yn 2008, mae'n rhoi cyfle i artistiaid anabl a/neu awtistig berfformio ar lwyfan proffil uchel. 2022 oedd eu Gŵyl Undod fwyaf erioed, a oedd yn cynnwys yr Ŵyl Ffilm Undod gyntaf erioed yng Nghaerdydd, Bangor, Llanelli ac ar eu platfform digidol,HijinxMobile.




### Dangosiadau Ymchwil a Datblygulleol Gentle/ Radical yng Nglan-yr-afon 2022/23

AilgysylltoddGentleRadical â chynulleidfaoedd cymdogaeth ar ôl COVID, i ddarganfod eu hanghenion, trwy gyfres o ddangosiadau 'pop-yp'yng Nglan-yr-Afonoedd yn gweithredu fel Ymchwil a Datblyguar gyfer cyfnod newydd o'r Clwb Ffilm Gentle/Radical. Fe wnaethant dreialu amrywiaeth o genres ffilm yn ogystal â themâu/materion gyda chynulleidfaoedd lleol, wedi'u marchnata trwy allgymorth lleol uniongyrchol, curo drysau, dosbarthu taflennu ar strydoedd unigol a threfnu cynulliadau lleol.



'Roedd y cyfleuster mor ofalgar a meddylgar - o'r eiliad y byddwch chi'n camu drwy'r drws mae'n teimlo'n arbennig.'
**- Katherine, Aelod o Gynulleidfa G/R**

Delweddau © Hijinx Unity Festival, Gentle/Radical: Beyond Punishment and Control event © Mana Baoosh.

2017 - 2023

# Inclusive Cinema

Yn 2017 fe wnaethom helpu i ddatblygu prosiect Sinema Cynhwysol BFI FAN, a oedd â'r nod o gefnogi dulliau sinema hygyrch ledled y DU. Yn ystod y cyfnod hwnnw, buom yn gweithio gyda phartneriaid i gyflawni nifer o brosiectau mynediad cenedlaethol gan gynnwys:

- Cynhwysiant Dosbarth Gweithiol: Cynulleidfaoedd, Cydweithwyr a Rhaglenni: Adnodd sydd wedi'i gynllunio i wella profiadau sinema i bobl dosbarth gweithiol a'r rhai mewn tlodi.

- T.L.C (SEF Gofal Tyner i Sinema dan arweiniad Traws/caru Traws) - Cyfres o bodlediad chwe rhan, gyda chwestiynau cyffredin, wedi'i dylunio fel gofod ar gyfer curaduron, awduron a meddylwyr traws o fewn arddangosfa sinema.

- Sidecard, Cronfa Ddata Deunyddiau Mynediad Ffilm ar gyfer dosbarthwyr, arddangoswyr, gwneuthurwyr ffilm a chynulleidfaoedd.

Darllenwch grynodeb o daith Sinema Gynhwysol gyda'n Rheolwraig Prosiect Toki Allison.



Image © Tree Top Films. Opening Doors at Loudoun Square Culture and Media Centre, Cardiff 2016.

# Cynulleidfaoedd ifanc

Dechreuodd ein taith gyda chynulleidfaoedd ifanc yn 2015 pan wnaethom gynnal archwiliad o addysg ffilm yng Nghymru, cyn mynd ymlaen i ymchwilio i wyliau ieuenctid. Arweiniodd hyn at greu grwpiau rhaglennu ifanc ledled Cymru a lansio Rhwydwaith Gŵyl Ieuenctid.

## Cipolwg:

### Cellb

MaeCellbyn fenter gymdeithasol nid er elwsy'n darparu hyfforddiant creadigol i bobl ifanc Blaenau Ffestiniog ac roeddent yn un o'n partneriaid cyntaf. Yn eu tymor 2023 'Cellb'Da i mi', cynigiodd Cellbbrofiadsinematigmodern a naws dinas i'r gymuned, i gyd yn eu canolfan adloniant lleol. Yn eu cenhadaeth i ddod â ffilmiau byd ac annibynnol i gynulleidfaoedd Blaenau roedd eu rhaglen yn cynnwys dangosiadau PicZIeuenctid ar gyfer 11-17 oed, clwb ffilm i'r teulu, fforwm pensiynwyr a hyfforddiant ar gyfer 'Clwb Clinc' – euclwbieuenctid Cymraeg.

### Rhwydwaith Gŵyl Ieuenctid Cymru (WYFN) / Ffilm Ifanc

Gan weithio gyda'n partneriaidWickedWales, ysbrydolwyd WYFN gan y 'Rhwydwaith Sinema Ieuenctid' rhyngwladol. Dyluniwyd y rhwydwaith i gefnogi rhaglenniffilm a wnaed gan ac ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc. Arweiniodd hyn at ddatblygu grŵp dan arweiniad ieuenctid: Ffilm Ifanc a gydweithiodd gyda gwyliau fel CAF a WOW ar eu rhaglenni, ynghyd â chynnig teithiau, cylchlythyrau azines.









Delweddau © Images © Cellb, Blaenau Ffestiniog, Off y Grid / Ffilm Ifanc





**Cipolwg:**

# Gwnaethpwydyng Nghymru 2013 - 2026

O'reiliad y gwnaethom lansio'rGanolfan, cawsom ymholiadau am y ffilmiau Cymreig diweddaraf. Dyma oeddcychwynein taith. Fe wnaethom adeiladu catalog ar-lein o hawliau ffilm, wedi'i ariannu mewn dangosiadau lleoliad, ymchwilio i rwystrau a datblygu strategaeth i ddathlu ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig. Am ypummlynedd diwethaf, gyda chyllid cyfatebol ganGymru Greadigol, rydym wedi bod yn brysur yn cyfweld â thalent, gan rannu rhagolygon, ysgrifennu erthyglau,creu cyhoeddusrwydd yn y wasga chynghori dosbarthwyr ar eu strategaethauffilmiau Cymreig

**20** → **1120** → **6** → **471**

| 20 | 1120 | 6 | 471 |
|---|---|---|---|
| Diwrnod rhagolwg sy'n galluogi sinemâu i wylio ffilmiau ymlaen llaw | o ffilmiau ar ein catalog | Darn o ymchwil a datblygu i mewn i berfformiad brand aswyddfa docynnau | Ffilm unigol wedi'i hyrwyddo |

**Rhwng 2021 a 2026 a gyda chefnogaeth Cymru Greadigol ar gyfer ein prosiect Gwnaethpwyd yng Nghymru, rydym wedi cefnogi:**

| 155 | 597 | 355 | 66 | 134 | 211 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sinema | Gwneuthurwr ffilmiau | Cwmni cynhyrchu | Gweithiwr llawrydd | Ased, gangynnwys podlediadau, cyfweliadau a blogiau fideo | Dosbarthwr |

Delweddau © I am Not a Witch, Gwledd / The Feast, Effi o Blaenau

# Ffilmiau

| 8694 | 80% | 1 | 33 |
| --- | --- | --- | --- |
| Ffilmiau a ddangoswyd | o'r rheiny yn 'arbenigol' | Ystafell Rhagolwg | Tymhorau wedi'u Curadu neu eu Pecynnu |



## 2013/14

- BFI Gothig

## 2014/15

- BFI SciFi

## 2015

- Prydain ar Ffilm Trefol

## 2015/16

- BFI LOVE

## 2016

- Prydain ar Ffilm Gwledig,
- Effaith Gwrthdaro
- Roald Dahl ar Ffilm

## 2016/17

- Seren Ddu BFI
- Gwrthryfel

## 2017

- Prydain ar Ffilm Arfordirol

## 2017/18

- Anim18

## 2019/20

- BFI Musicals
- BFI Comedy Genius
  BFI Shakespeare ar ffilm

## 2021/22

- Ffilmiau Feels
- BFI Japan
- New Directions

## 2023

- Powell & Pressburger

## 2024

- Art of Action

## 2025

- Melodrama

# Cipolwg:








## Brides

Fe wnaethom gydweithio â VUE Lumiere ar ryddhau Brides, ffilm a gynhyrchwyd gan Ie Ie Productions, gan gynnig rhagolwg i aelodau Canolfan Ffilm Cymru. Fe wnaethom ffilmio sesiwn holi ac ateb i'w ddefnyddio mewn sinemâu a phodlediad gyda'r cynhyrchwyr o Gymru Cat Ramasut ac Alice Lusher, Arweinydd Cymunedol yng Nghymru Somaliland Link Ali Abdi a gyflwynwyd gan Zaynab Ahmed sy'n 17 oed. Fe wnaethom hefyd gomisiynu darn golygyddol gan Hadeel Alfaraj sy'n gweithio gyda Chymorth Ceiswyr Lloches Abertawe yn dilyn ei siwrne hi fel ceisiwr lloches. Dewch o hyd i'r asedau llawn ar The Whole Story.

## Rhaglenni mawr y DU

Yng Nghanolfan Ffilm Cymrufe wnaethom arwain ar dair o brif raglenniBFI FANyDU gyfan, gan ddechrau gyda'r BFIGothicgwreiddiol yn ôl yn 2013. Yn 2016 fe wnaethom ddylunio Roald Dahl ar Ffilm: dathlu canmlwyddiant geni Roald Dahl, gyda rhaglen ffilm sy'n addas i'r teulu a gyrhaeddodd 149 o leoliadau sgrinio ledled y DU. RoeddScratchn' SniffMatildayn uchafbwynt! Yn 2018 fe wnaethon ni gyflwyno Anim18,tymor o animeiddio Prydeinig a gyflwynwydmewn 150 o leoliadau yn y DU, gan ddod â dros 100 o ffilmiau nodwedd a byri gynulleidfaoedd.

## Ystafell Rhagolwg Canolfan Ffilm Cymru

Yn2017,lansiwyd gofod ar ein gwefan lle gallai rhaglenwyr BFI FAN o bob rhan o'r DU gael mynediad at ydangoswyr ffilm Prydeinig annibynnol a rhyngwladol diweddaraf ar-lein mewn man diogel a ddiogelir gan gyfrinair. Mae 504 o raglenwyr wedi cofrestru gyda chyfanswm o 653 o ffilmiau wedi'u cynnig hyd yma.Mae'rteitlau sydd wedi'i gwylio fwyaf yncynnwys Robot Dreams,Femme, The Shepherd and the Bear a Two Tickets to Greece.

*"Diolch yn fawr iawn am ehangu hyn i aelodaeth ehangach FAN ac am ei sefydlu i mi. Bydd yn hynod ddefnyddiol wrth raglennu - anaml y byddaf yn cael gweld ffilmiau cyn i mi eu rhaglennu gan na allaf gyfiawnhau amser a chost teithio i Lundain ar gyfer dangosiadau rhagolwg."* ***Aelod o FAN***

Delweddau © Brides, , Roald Dahl on Films, Anim18
Scratch n Sniff

# Mwy o wybodaeth

**Darganfyddwch ein holl brosiectau yma**

# Gwybodaeth cysylltu

**Hana Lewis**, Pennaeth Canolfan Ffilm Cymru ar
02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

**Lisa Nesbitt,** Swyddog Cynorthwyo Aelodau, ar
02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org

**Jade Atkinson,** Cydlynydd Marchnata Aelodau, ar
02920 311 057 / jade@filmhubwales.org




Delwedd © Watch-Africa Film Club with filmmaker Rungano Nyoni (I am Not a Witch).

Lluniau'r clawr: © Gentle/Radical, Memo Arts Centre, Roald Dahl on Film, Strictly Cinema, 73 Cinema, Llancarfan Community Cinema, Cinema Golau, Iris Prize Festival: Iris on the Move, The National Library of Wales' Screen and Sound Archive, Flicks in the Sticks, Off y Grid, Gwyn Hall, Hub Helo, Contact a Family Cymru, Opening Doors, Cellb, BFI Gothic: Castle Coch, Chapter, Watch-Africa Film Club, Hijinx, Wicked Wales, Anim18: Chapter, Theatr Gwaun, Magic Lantern, Taliesin arts Centre, TAPE, Abertoir.